

PENNOD 9: FFYDDLONIAID

Salm 31.23

Cerwch yr Arglwydd ei holl saint ef, yr Arglwydd a geidw y ffyddloniaid

Yn ôl Deddf yr Iddewon rhaid enwaedu ar fachgen ar ddiwedd wyth diwrnod⁵⁰ a dyma Mair a Joseff yn mynd â'u plentyn i'r Deml. Rhaid iddynt gyflawni dau ddyletswydd. Yn gyntaf rhaid i Fair dderbyn puredigaeth ar ôl esgor ar blentyn trwy offrymu aberth addas yn ôl gofynion y Ddeddf.⁵¹ Oen fyddai aberth y rhai a fedrai fforddio un, tra bod y tlodion yn cael offrymu dwy golomen. Colomennod sydd gan y fam hon. Yn ail, rhaid iddynt fynd trwy ddefod prynu'u cyntaf-anedig: "Bydd y cyntaf a ddaw allan o'r groth ac a offrymir i'r Arglwydd, yn ddyn neu anifail yn eiddo i ti; ond yr wyt i brynu'n ôl y plentyn cyntafanedig o'r bobl..... yr wyt i'w brynu'n ôl yn fis oed, a thalu'r tâl penodedig o bum sicl o arian..."⁵² Er bod y cyntaf-anedig hwn yn arbennig, eto rhaid iddo fynd trwy holl ddefodau'r Ddeddf fel pob "mab Abraham" arall. Teimla Mair a Joseff eu bod yn ffodus iawn i fod mor agos at Jerwsalem i fynd i'r Deml ar gyfer y ddefod. Diddorol yw sylwi bod Luc y cenedl-ddyn yn cyfeirio pump o weithiau at "Gyfraith yr Arglwydd" neu geiriau tebyg yn yr hanesyn hwn. Pwysleisia felly ddefosiwn Mair a Joseff i'r Ddeddf. Beth, tybed, sy'n mynd trwy eu meddwl wrth fynd trwy'r ddefod: ai meddwl ei fod yn bosibl iddynt brynu hwn yn ôl oddi wrth yr Arglwydd?

Cyfarfu defosiwn dwfn y fam ifanc a'i gŵr (neu darpar-wŵr) â defosiwn dau berson hen iawn, fu'n treulio eu holl amser yn gweddïo yn y Deml – Simeon ac Anna, a'r ddau yn llawn ymdeimlad o ddisgwyliad. Disgrifiad Luc o Simeon yw "dyn cyfiawn a duwiol... yn disgwyl am ddiddanwch Israel; ac yr oedd yr Ysbryd Glân arno." ('Cyfiawn'- Groeg *eulabes* yw'r un gair a ddefnyddir gan Mathew i ddisgrifio Joseff; 1.19). Diddorol yw sylwi bod cyfieithiadau modern Cymraeg a Saesneg wedi cadw'r gair 'duwiol' neu 'devout', ar wahân i'r *Good News Bible* sy'n dweud 'pious.' Yn ôl yr *Interpreter's Dictionary of the Bible*, yn Eseiâ 57.1 defnyddir *eulabes* i awgrymu 'cyfiawn.' Defnyddiwyd y gair mewn sawl lle yn y Testament Newydd: yn 2 Pedr 2.9 mae'r gair yn golygu 'parchus, duwiol, yn ffyddlon i'w grefydd', tra bod Luc yn *Actau yr Apostolion* yn cadw'r gair i sôn am yr addoliad a offrymir gan baganiaid, gyda rhai sydd a rhyw fath o gysylltiad â'r synagog.⁵³ Fel Mair a Joseff, cafodd Simeon ymweliad gan angel a rhoddwyd iddo'r addewid na fyddai'n marw cyn iddo weld Crist yr Arglwydd. Dim rhyfedd felly iddo "ddisgwyl am ddiddanwch Israel." Cafodd yr ymadrodd hwn lawer o ddefnydd mewn cylchoedd rabinaidd, i ddisgrifio cyflawniad gobaith Israel am ddyfodiad y Meseia.

Disgrifiad yr Eglwys Uniongred o'r hen ddyn yw "Simeon, Derbynydd Duw" wrth ochr Anna y Broffwydes; cedwir Gŵyl y "Sanctaidd a Chyfiawn Simeon, Derbynydd Duw ac Anna y Broffwydes ar Chwefror 3ydd. Sonnir amdanynt fel yr olaf o'r proffwydi. Mewn llawer o eiconau o Gyflwyniad Crist yn y Deml, portreadir Anna yn sefyll y tu ôl i Fair; naill ai y mae ei dwylo yn dangos Iesu, neu y mae hi'n dal sgrôl, darlun a ddefnyddir yn aml am broffwydi mewn eiconau.

Y ddeuddyn hyn yw'r rhai olaf i weld y plentyn Iesu yn yr Efengylau –at yr hen bobl yma, i bob golwg â dyddiau eu defnyddioldeb wedi llwyr fynd heibio, ond eu gwaith yw cynrychioli tlodion y tir, y daw'r Crist. Maent yn sefyll ochr yn ochr â'r bugeiliaid, aflan a gwrthodedig gan gymdeithas barchus, a'r Doethion, estroniaid annerbyniol yn croesawu dyfodiad Crist i'w fyd.

Mae'n werth sylwi ar ddau beth ynglyn â fersiwn Luc o hanes y Geni. Yn gyntaf, mae'n dechrau a gorffen gydag hen bobl. Mae ei stori yn dechrau gyda Sachareia ac Elisabeth, pâr di-blant. Credaf fod Luc am i'w ddarllenwyr gofio pâr arall yn yr un sefyllfa, sef Abraham a Sarah. Rhoddwyd addewid iddynt o fab a disgynyddion; gwnaed cyfamod ag Abraham yn addo gofal ac arweiniad Duw i'w genedl newydd er mwyn iddi fod yn fendith i'r holl fyd. Braint Sachareia ac Elisabeth yw bod yn dystion o Dduw yn cadw ei addewid trwy'ddanfon y Gwarddwr, a'u mab hwy â rhan yng nghynllun gwardedigol Duw.

Mae hanes y Geni gan Luc yn dechrau gyda Sachareia ac Elisabeth yn cael yr addewid bod y Meseia ar ei ffordd ac yn gorffen gyda'r hen bobl Simeon ac Anna yn gweld cyflawni'r addewid wrth i Simeon ddal Iesu yn ei freichiau.

Yr ail beth yn hanes Luc yw bod ei stori yn dechrau gyda Sachareia yn y Deml ac yn gorffen yn y Deml gyda Simeon ac Anna. Mae'r dehcreu a'r diwedd yn sôn am ffyddlondeb oes i Dduw ac yntau'n cwrdd â'i bobl yn ôl addewidion ei gyfamod.

*"Gyda'r gwan a gwael o hyd, Trigai Ceidwad mawr o hyd."*⁵⁴

Dduw ein Tad, cedwaist ffydd â Simeon ac Anna ar hyd eu bywydau hirion gan eu galluogi i fyw eu bywydau yn ffyddlon i ti; Cynnorthwya ni, yn ein tro, trwy dy Ysbryd Glân i adnabod Iesu pan y daw atom, fel trwy pob rhan o'n bywyd y canwn dy glod; trwy Iesu Grist ein Gwarddwr.

*Canaf am yr addewidion
Ar fy nhaith
lawer gwaith
Troesant yn fendithion.*

Cwestiynau i'w hystyried neu i'w trafod

Beth sydd gan esiampl Simeon ac Anna i'w ddweud wrthym ni, yn arbennig gan mai'r genhedlaeth hyn yw'r cryfaf yn ein heglwysi heddiw?

Cynrychiola Simeon ac Anna ffydd gyson. Pa mor gyson yw ein ffydd ni?

Pa gysur sydd i'w gael yng Nghân Simeon? Beth yw ei her?